YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

01545 570217
swyddfa@ygaberaeron.org.uk
Pennaeth / Headteacher:
Owain Jones

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Mae hi wedi bod yn hyfryd i groesawu disgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ôl i'r Ysgol yr wythnos yma. Mae'r disgyblion wedi bod yn wych trwy gydol yr wythnos. Roedd rhai yn gyffrous iawn i ddod 'nôl ac eraill yn dangos dygnwch ardderchog i ddod i'r ysgol ac i fwrw ymlaen gyda'u diwrnod er eu bod yn bryderus ac yn nerfus am ddod 'nôl wedi cyfnod estynedig i ffwrdd o'r safle. Rwy'n falch iawn ohonynt i gyd. Diolch i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am eu paratoi at ddychwelyd.

Efallai eich bod wedi gweld ar y newyddion sôn am brofion llif unffordd (LFT) i holl ddisgyblion o flwyddyn 7 i fyny. Rwy wedi derbyn gwybodaeth gan y llywodraeth am y cynnig hwn sy'n cynnwys y wybodaeth yma -

"Hoffwn eich sicrhau nad yw'r ehangu hwn yn cael ei ysgogi gan unrhyw bryder neu fater newydd o ran y dystiolaeth iechyd cyhoeddus ynglŷn â disgyblion. Mae'r sefyllfa iechyd cyhoeddus cyffredinol yn gwella'n sylweddol ac mae'r rhaglen frechu yn gwneud cynnydd ar gryn gyflymder. Rydym yn gwybod bod budd o gynnig profion cyson i helpu i adnabod achosion asymptomatig pellach a gwella ein dealltwriaeth o gyfraddau heintio." Steve Davies Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Does dim o'r profion yma wedi cyrraedd yr Ysgol eto ac fe wnaf i'ch diweddaru chi o'r sefyllfa fel mae'n datblygu. Mae profi fel hyn yn gam arall i leihau llediad y feirws ond gallaf eich sicrhau o flaen llaw y bydd unrhyw gynnig i ddisgyblion Bl 7, 8 a 9 yn un gwirfoddol ac na fydd gorfodaeth ar unrhyw unigolyn i ddefnyddio'r profion (sydd dal yn wir hefyd am ddisgyblion Bl 10 i fyny).

Os yw cyfraddau Covid dal yn isel iawn yn yr ardal leol yn yr wythnos nesaf, mae'n fwriad gennym addasu ychydig ar amserlen ystafelloedd dosbarth disgyblion o Ebrill 26ain ymlaen. Bydd disgyblion pob blwyddyn ysgol yn symud dosbarthiadau rhwng gwersi yn hytrach na bod yr athrawon yn symud. Mi fydd hyn yn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion i gael gwersi mwy ymarferol mewn ystafelloedd pwrpasol, e.e. mewn lab Gwyddoniaeth, ystafell TGCh, celf neu gerdd. Mi fydd yn haws i athrawon i baratoi rhwng gwersi yn ogystal.

Fel ail-gam – a dim ond os yw cyfraddau Covid yn parhau yn isel yn yr ardal, byddwn yn cynllunio i wneud blynyddoedd 7, 8 a 9 yn grwpiau cyswllt blwyddyn gyfan yn hytrach na fesul dosbarth. Rydym yn gwybod bod disgyblion wedi ei chael hi'n anodd bod mewn gwahanol grwpiau cyswllt i rai o'u ffrindiau ac yn credu bydd hyn yn gam pwysig. Bydd dal angen dilyn yr holl drefniadau lleihau risg wrth gwrs ac aros o fewn grwpiau cyswllt blwyddyn.

Hoffwn gymryd y cyfle i'ch atgoffa bod newidiadau i ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yr ysgol. Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar Ddydd Gwener, Mai 28ain a Dydd Mercher, Mehefin 9fed.

Edrychaf ymlaen at dymor da o waith a gweithgaredd o holl ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 ac at eich cefnogaeth arferol fel rhieni a gwarcheidwaid.

Yn gywir,

YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

01545 570217
swyddfa@ygaberaeron.org.uk
Pennaeth / Headteacher:
Owain Jones

Dear Parent / Guardian,

It has been wonderful to welcome Year 7, 8 and 9 pupils back to the School this week. The pupils have been fantastic throughout the week. Some were very excited to come back and others showed excellent resilience to come to school and get on with their day even though they were anxious and nervous about returning after an extended time away from the school site. I'm very proud of them all. Thank you as parents and guardians for preparing them for their return.

You may have seen on the news the mention of lateral flow tests (LFT) for all pupils from year 7 upwards. I have received information from the government about this proposal which includes this information -

"I would like to reassure you that this expansion is not prompted by any new concern or issue from public health evidence around pupils. The overall public health position is improving significantly and the vaccine programme is progressing at some pace. We know there is benefit in offering routine testing to help identify further asymptomatic cases and better understand infection rates" Steve Davies, Director, Education Directorate

None of these tests have yet arrived at the School and I will update you on the situation as it develops. Testing in this way is another step in reducing the spread of the virus but I can assure you in advance that any offer to Year 7, 8 and 9 pupils will be voluntary and that no one will be obliged to use the tests (which is still also true of pupils in Year 10 and above).

If Covid rates are still very low in the local area next week, we plan to make some adjustments to the pupils' classroom timetable from April 26th onwards. Pupils in each school year will move classes between lessons rather than teachers moving. This will widen the opportunities for pupils to have more practical lessons in specific rooms, e.g. in a Science lab, ICT, art or music room. Teachers will also find it easier to prepare between lessons.

As a second step - and only if Covid rates remain low in the area, we hope to make years 7, 8 and 9 into whole year contact groups rather than class contact groups. We know that pupils have found it difficult to be in different contact groups to some of their friends and believe this will be an important step. Of course, all risk reduction arrangements will still need to be followed and pupils will remain within year contact groups.

I would like to take this opportunity to remind you that there are changes to the school's in-service training (INSET) days. The school will be closed to pupils on Friday, May 28th and Wednesday, June 9th.

I look forward to a good term of work and activity from all pupils in years 7, 8 and 9 and to your usual support as parents and guardians.

Yours faithfully,